



## Y PROSIECT

## ALLFA WERTHU A WARWS NEWYDD

## Y CLEIENT

## J R WEBSTER

## GWERTH Y CONTRACT

# £1.0M

## Y NOD

Mae J R Webster yn gwmni arbenigol a hirsefydlog sy'n cyflenwi offer, addurniadau a chyfarpar diogelwch personol i fyd diwydiant. Roeddent angen warws newydd ac allfa werthu yn Lerpwl ac roeddent wedi llwyddo i gael safle mewn lleoliad amlwg yn agos i ganol y ddinas. Yna cawsent ganiatâd cynllunio ar y safle ar gyfer eu huned newydd.

## Y DULL

Gwnaethom dendr am y gwaith dylunio ac adeiladu'r Warws a'r Allfa Werthu newydd drwy broses ddau gam. Roeddem yn llwyddiannus ar y cam cyntaf a chawsom le ar yr ail gam pan fuom yn gweithio'n agos gyda Websters i ddatblygu atebion dylunio wedi'u teilwra'n arbennig o amgylch eu gweledigaeth ar gyfer y busnes newydd. Yr uned newydd yw prif allfa Websters a chanddi nifer o nodweddion a chysyniadau sy'n cael eu cyflwyno ar draws eu busnes.





Hollingsworth Group (UK) Ltd  
St. Ives Way  
Engineer Park  
Sandycroft  
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

[www.hollingsworthgroup.co.uk](http://www.hollingsworthgroup.co.uk)

Nid oedd cynrychiolaeth broffesiynol gan Websters, megis Syrffwr Meintiau Proffesiynol neu Reolwr Prosiect. Felly, aethom ati i ddarparu cyngor proffesiynol iddynt ar faterion megis y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) ac hyd yn oed lunio dogfennau'r Contract JCT i'w llofnodi. Roeddem yn datblygu lefel uchel o ymddiriedaeth gyda pherthynas oedd yn tyfu'n gryfach wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Roeddem yn gweithio gyda'r Pensaer A2 newydd a'r peiriannydd strwythurol i ddatblygu manylion ymarferol ac adeiladwy oedd yn cwrdd â gofynion Websters ac yn aros o fewn cyfyngiadau'r Caniatâd Cynllunio.

Roedd y warws yn agos iawn at draphont sy'n cludo trenau'r cwmni prysur Northern Line Merseyrail. Trwy gysylltu gyda Network Rail gwelsom fod y cynllun ar gyfer y sylfaen a ddisgrifir yn y dogfennau tendro'n annerbyniol. Byddai gosod pyst sylfaen wedi eu gyrru i mewn yn achosi ysgwyd gormodol ac efallai'n niweidio'r draphont a adeiladwyd yn oes Fictoria. Aethom ati i wneud mwy o waith archwilio ar y safle a datblygu cynllun arall ar gyfer y sylfaen oedd yn cynnwys rafft goncrit wedi'i hatgyfnerthu'n gryf.

Wrth i'r prosiect symud yn ei flaen roedd Websters yn gallu gweld maint a graddfa'r adeilad yn well ac roeddem ninnau'n gallu gweithio gyda nhw i gael yr atebion gorau wrth osod y swyddfeydd a'r manau amwynder yn ogystal â threfnu'r man gwerthu arfaethedig.

## Y CANLYNIADAU

Cwblhawyd y prosiect yn brydlon ac i safon uchel iawn. Gallai Websters osod y man gwerthu a'i agor i werthu ar eu dyddiad targed.

## CRYNODEB

Mae Websters wedi dweud eu bod wrth eu boddau gyda'r adeilad a gyda mewnlifiad y busnes newydd o ganlyniad i'w leoliad amlwg. Maent hefyd wed gadael i ni wybod bod y profiad o adeiladu'r uned newydd gyda Hollingsworth Ellery yn un da ac y byddent yn hapus i'w wneud eto.